



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

# Rhybudd uwch ynghylch rhywogaethau o bysgod anfrodorol yn systemau afon Cymru

Gorffennaf 2019

**Dyma apêl gan Cyfoeth  
Naturiol Cymru i enweirwyr ac i'r cyhoedd am gymorth parhaus i  
helpu i nodi ac adrodd am eogiaid cefngrwm.**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog rhwydwyr a genweirwyr i adrodd unrhyw ddaliadau anarferol ar ôl dal eog cefngrwm am y tro cyntaf yn afon Dyfrdwy yng ngorsaf monitro maglau pysgod Caer.

Cafwyd sawl adroddiad o ddal y rhywogaeth hon ledled y DU yn 2017, yn enwedig yn yr Alban ac oddi ar arfordir gogledd-ddwyrain Lloegr. Hefyd, cofnodwyd eogiaid cefngrwm yn silio yn yr Alban, er mai prin oedd yr adroddiadau o arfordir gorllewinol y DU ac ni fu unrhyw adroddiad o Gymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu data hanfodol ar achosion o weld y rhywogaeth fel y gall swyddogion fonitro'r sefyllfa er mwyn pennu unrhyw effaith bosibl ar yr amgylchedd lleol ac ar rywogaethau. Bydd y data a gesglir yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru, ymchwilyr i bysgodfeydd a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn rheoli pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon a Sgandinafia i ddeall sut i reoli dyfodiad eogiaid cefngrwm yn y DU yn well.



Eog cefngrwm anfrodorol a ddaliwyd yn afon Dyfrdwy ym mis Gorffennaf 2019

## Darganfyddiad anarferol

Meddai Dave Mee, sy'n Gynghorydd Arbenigol Arweiniol:

Mae'n eithaf anarferol gweld eog cefngrwm yn ein dyfroedd a gallai hyn fod y cyntaf ers rhyw 30 o flynyddoedd, er y bu nifer o adroddiadau ledled y DU ac Iwerddon yn 2017.

Byddwn i'n annog rhwydwyr a genweirwyr i gysylltu â ni os byddan nhw'n gweld unrhyw eog anffordorol yn y dyfroedd, gyda dyddiad, lleoliad ac, os yw'n bosibl, llun, a fyddai wir yn ein helpu i'w canfod a chreu darlun o ble gallen nhw fod.

## Cyngor i enweirwyr a rhwydwyr

Mae cyflwr ein stociau o eogiaid yr Iwerydd, sef ein heog brodorol, yn peri pryder inni ac rydym yn annog pob rhwydwr a genweiriwr i ddychwelyd pob eog brodorol. Fodd bynnag, gofynnir i'r rheiny sy'n dal eog cefngrwm anffordorol beidio â dychwelyd y pysgodyn i'r dŵr. Yn hytrach, gofynnir iddynt ei ladd yn drugarog ac, os yw'n bosibl, sicrhau bod y pysgodyn ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru ei arolygu a'i ddadansoddi ymhellach.

- Cadwch y pysgodyn a pheidiwch â'i ryddhau yn ôl i'r dŵr (hyd yn oed mewn afonydd sydd ar agor ar gyfer genweirio dal a rhyddhau yn unig)
- Cofnodwch ddyddiad a lleoliad y daliad a hyd a phwysau'r pysgodyn
- Tynnwch lun o'r pysgodyn
- Tynnwch sylw Cyfoeth Naturiol Cymru ato ar unwaith trwy ffonio ei linell gymorth gyfrinachol 24 awr ar 03000 653 000

Yna, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn trefnu casglu'r pysgodyn i'w archwilio ymhellach. Bydd hyn yn helpu i wybod helaethrwydd ac ehangder dosbarthiad y rhywogaeth yn nyfroedd Cymru.

Daw eogiaid cefngrwm (*Oncorhynchus gorboscha*) yn wreiddiol o ogledd y Môr Tawel.

Mae ymddangosiad y rhywogaeth yn peri pryder gan y gall effeithio ar boblogaethau eogiaid a brithyllod môr brodorol Cymru yn y dyfodol. Nid yw effaith bosibl eogiaid cefngrwm yn eglur ar hyn o bryd; fodd bynnag, gallai'r pysgod hyn ddod â pharasitiaid a phathogenau nad ydynt yn bresennol mewn eogiaid brodorol. Mae'n annhebygol y byddant yn rhyngfridio ag eogiaid yr Iwerydd gan fod eogiaid cefngrwm yn silio tua diwedd yr haf ac mae eogiaid yr Iwerydd yn silio yn y gaeaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cystadleuaeth am fwyd a thiriogaeth mewn ardaloedd o fagu rhwng poblogaethau ifanc o eogiaid cefngrwm ac eogiaid yr Iwerydd.

Gofynnir i unrhyw un sydd â gwybodaeth i gysylltu â Chanolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000 653 000 neu i e-bostio [fisheries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:fisheries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

## Sut i adnabod eogiaid cefngrwm:

- Smotiau hirgrwn mawr du ar y gynffon
- Cefn braidd yn las, ystlysau arian a bola gwyn
- Cennau llawer llai nag eog yr Iwerydd o'r un maint
- Ceg a thafod go dywyll
- 40-60cm o hyd
- Bydd gwrywod sy'n bridio'n datblygu crib nodweddiadol

I'r gwrthwyneb, dyma nodweddion arferol eogiaid yr Iwerydd brodorol:

- Dim smotiau ar y gynffon
- Fel arfer yn fwy o faint (hyd at 100cm o hyd)
- Ceg a thafod gwelw
- Mae y cen ar y croen yn fwy o faint.
- Un smotyn du neu ddau ar groen y dagell
- Smotiau ar y cefn uwchlaw'r llinell ystlysol
- Cynffon dewach na chynffon eog cefngrwm

Lluniau sy'n helpu i adnabod eogiaid cefngrwm



Patrwm smotiau nodweddiadol ar y gynffon



Golwg yn y cefnfor